


Pa ddatblygiadau arloesol sy'n helpu i ddenu, recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol o fewn cyd-destun y DU? : Adolygiad Cyflym o Dystiolaeth, Rhagfyr 2021



Prinder gweithwyr yn y gweithlu gofal cymdeithasol



Mae pwysau ar y sector Gofal Cymdeithasol yn dyddio o gyfnod cyn y pandemig



Mae recriwtio rhyngwladol wedi bod yn her i ofal cymdeithasol



Er bod hon yn sefyllfa barhaus, mae'r pandemig COVID-19 wedi ei gwaethgu

Nod: Archwilio tystiolaeth o ddatblygiadau arloesol i **DDENU**, **RECRIWTIO** A **CHADW** gweithwyr gofal cymdeithasol. Deall pa ffactorau sy'n dylanwadu ar drosiant o fewn cyd-destun y DU.

EFFEITHIOLRWYDD AR GYFER GWEITHWYR GOFAL CYMDEITHASOL

Sylfaen dystiolaeth

GRADDAU

- 13 o erthyglau'r DU ynglŷn â gweithwyr cymdeithasol
- 28 o erthyglau'r DU ynglŷn â'r gweithlu gofal cymdeithasol

AMSERU

- Cyhoeddwyd yr astudiaethau yn ystod **2001-2021**, llawer ohonyn nhw cyn y pandemig
- Mae'n bosibl na fydd y darganfyddiadau'n berthnasol i'r amgylchiadau eithriadol a gafwyd yn ystod y pandemig

EFFEITHIOLRWYDD AR GYFER GWEITHWYR CYMDEITHASOL

- Disgrifiwyd **naw datblygiad arloesol** ar draws y sylfaen dystiolaeth i ddenu, recriwtio a chadw **gweithwyr cymdeithasol**; o'r rhain, dim ond tri a werthuswyd
- Mae'n bosibl bod **mentrau cyn cyflogi**, gan gynnwys gweithgareddau dysgu seiliedig ar arfer, yn cyfrannu at gadw gweithwyr (tystiolaeth dulliau cymysg)
- Efallai fod **graddedigion ar raglenni carlam** yn fwy tebygol o aros mewn cyflogaeth a, thrwy hynny, cyfrannu at gadw mwy o weithwyr (tystiolaeth dulliau cymysg)
- Mae **prentisiaethau** o bosibl yn ffordd dra-ffeithiol i hyfforddi ac yna cadw gweithwyr cymdeithasol (tystiolaeth dulliau cymysg)
- Nodwyd bod y canlynol yn ffactorau a oedd yn achosi gweithwyr cymdeithasol i adael a ddyfynnwyd yn aml: **llwythi achosion uchel a llwyth gwaith gormodol, ynghyd â straen sefydliadol**
- Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth a oedd yn edrych ar **gynyddu amrywiaeth neu amodau gweithio da** i weithwyr cymdeithasol

- Disgrifiwyd **11 o ddatblygiadau arloesol** i ddenu, recriwtio a chadw'r **gweithlu gofal cymdeithasol ehangach ar draws y sylfaen dystiolaeth**; dim ond **4 a werthuswyd**
- Mae cael **gweithwyr gofal i fod yn llysgenhadon** i hybu cyfleoedd gyrfa'n gallu cael effaith positif ar ddenu, recriwtio a chadw lefelau staff newydd ac mae'r llysgenhadon eu hunain yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi'n well ac maen nhw'n fwy tebygol o aros gyda'u cyflogwr cyfredol (tystiolaeth dulliau cymysg)
- Mae **mentrau hyfforddi cyn cyflogi**, fel Cynllun Peilot Gyrfaoedd Gofal yn Gyntaf, yn bwysig i feithrin sgiliau gofal sylfaenol, i baratoi ar gyfer cyfweiliadau ac i fagu hyder, a gall hyn wella'r recriwtio (tystiolaeth dulliau cymysg)
- Yn sgil **ymgyrchoedd recriwtio cenedlaethol**, yn benodol ymgyrch 'Mae pob diwrnod yn wahanol', gwelwyd cynnydd mewn ymholiadau a cheisiadau (denu), ac mewn cyfweiliadau a swyddi gwag a lenwyd (recriwtio) (tystiolaeth adroddiad sefydliadol)
- Mae **recriwtio ar sail gwerthoedd** wedi arwain at gostau recriwtio is, enillion positif ar fuddsoddiad, trosiant is ymhlith staff a pherfformiad staff gwell (tystiolaeth dulliau cymysg a thystiolaeth ddisgrifiadol feintiol)
- Nodwyd bod y canlynol yn ffactorau sy'n effeithio'n negyddol ar drosiant: **telerau ac amodau gwael, tâl isel, oriau gweithio anghymdeithasol a diffyg profiad** cyflogaeth a hefyd rheolwyr
- Roedd ffactorau positif yn cynnwys: **taliadau bonws cyflog a chadw, amgylchedd gweithio da a dathlu cyflawniadau**

GOBLYGIADAU AR GYFER POLISI AC ARFER

- Er gwaethaf **llu o fentrau** i hybu denu, recriwtio a chadw gweithwyr, prin iawn yw unrhyw werthusiad cadarn o ddulliau penodol o weithredu. Dylai mentrau polisi yn y dyfodol **gynnwys cynllunio gwaith gwerthuso o'r cychwyn cyntaf** er mwyn datblygu sylfaen dystiolaeth fwy helaeth.
- Dylid hefyd annog arianwyr ymchwil i ddylunio cynlluniau ariannu i gefnogi ymchwil yn y maes hwn.



The Wales Centre For Evidence Based Care
A JBI Centre of Excellence



Wales COVID-19 Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government



Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

- Mae Gofal Cymdeithasol Cymru'n llunio fframwaith gwaith cymdeithasol newydd sy'n cynnwys **ystyried pethau fel dysgu ar sail arfer sydd wedi'i wreiddio'n dda mewn awdurdodau lleol, gweithgarwch cynefino a datblygu cefnogol, cynlluniau carlam i raddedigion a llwybrau gyrfa amrywiol.**
- Mae **ymgyrchoedd i hybu gwaith gofal** yn angenrheidiol ac yn bwysig, i **gydbwysu'r dirnadaethau negyddol ynglŷn â gwaith gofal a'i statws isel.**

Cynhyrchwyd yr adolygiad cyflym ym mis Rhagfyr 2021, ac mae ar gael yn: